



CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

YMDDIRIEDOLAETH CADWRAETH ADEILADAU CADWGAN

a gynhaliwyd nos Fawrth 24 Tachwedd 2020

drwy ZOOM rhwng 6.00pm a 6.45pm

Yn Bresennol: Aelodau – 12
Dirprwyon - 2
Sylwedyddion – 3

Ymddiheuriadau: Aelodau ac Ymddiriedolwyr: Rhodri Evans, Sue Edwards, Mark Edwards, Glen Johnson, Keith Evans, Roger Thomas, Timothy O'Neil

Cylchrediad: Ymddiriedolwyr Cadwgan, Joff Timms

Eitem: Croeso gan Gadeirydd Cadwgan – Non Davies

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a soniodd am y flwyddyn ryfedd ac anodd a oddefwyd hyd yma yn 2020. Dywedodd fod cyfarfodydd ar Zoom bellach yn arfer, ac er nad oedd yn ddelfrydol roedd yn gyfrwng ar gyfer cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Diolchodd y Cadeirydd i Clive Davies am sefydlu a gweinyddu'r Zoom.
- Ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2019, disgwyliwyd blwyddyn arferol i adeiladu ar y llwyddiannau clir a gyflawnwyd yn ystod 2019/20. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn wrth reswm ond roedd Castell Aberteifi yma o hyd, yn goroesi'r argyfwng hwn fel y mae wedi goroesi llawer o rai eraill dros yr oesoedd.
- Diolchodd y Cadeirydd i'r holl staff am eu cyfraniad at sicrhau y bu Castell Aberteifi yn gallu cadw i fynd, yn ystod blwyddyn arbennig o anodd. Bu'n rhaid i'r staff addasu i ffyrdd newydd o weithio, gan ddysgu ar y pryd, ac maent wedi gwneud hynny'n arbennig o dda.
- Dywedodd y Cadeirydd mai'r gwirfoddolwyr yw un o asedau mwyaf y Castell o hyd. Er na ddigwyddodd llawer o'r gweithgareddau gwirfoddoli arferol, maent wedi parhau i gefnogi'r Castell mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys gofalu am yr ardd, gwneud masgiau wyneb i'r staff a chynhyrchu fideo newydd i Ystafell y Tŵr.
- Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Ymddiriedolwyr am eu gwaith caled parhaus ac, yn olaf, datganodd ei gobaith y byddai normalrwydd yn dychwelyd yng ngwanwyn 2021.

1.0 Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019.

- 1.1 Anfonwyd papurau pleidleisio dirprwy at yr holl aelodau cyn y cyfarfod. Dychwelwyd dau.
- 1.2 Derbyniwyd bod cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019 yn gofnod cywir. Fe'u cynigiwyd gan Joff Timms, fe'u heiliwyd gan Chris Hewitt gyda 14 aelod yn cytuno.

2.0 Adrodd am weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn a chymeradwyo Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfrifon am y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020.

- 2.1 Mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 wedi'u harddangos ar wefan Castell Aberteifi, a dosbarthwyd copïau electronig cyn y cyfarfod.
- 2.2 Cyflwynodd Jonathan Thomas Adroddiad yr Ymddiriedolwyr gan roi crynodeb o'r cyfnod adrodd a'r gweithgareddau ers mis Mawrth 2020.
- 2.2 Cyflwynodd Kevin Taylor y cyfrifon gyda'r pwyntiau allweddol wedi'u hamlinellu a'u hegluro, yn unol â'r adolygiad ariannol yn yr adroddiad cyflawn.
- 2.3 Cymeradwywyd Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Cawsant eu cynnig gan Arwyn Reed, a'u heilio gan Chris Hewitt. Roedd 14 aelod o blaid.

3.0 Ethol neu ailethol yr Ymddiredolwyr yn ymddeol drwy gylchdro, Non Davies ac Arwyn Reed, sy'n cynnig eu hunain i'w haillethol.

3.1 Cadeiriodd Chris Hewitt yr eitem hon am swydd y Cadeirydd a gynigiwyd ar gyfer ailetholiad.

3.2 Cafodd ailetholiad Non Davies ei gynnig gan Steff Jenkins, a'i eilio gan Clive Davies. Roedd 11 aelod o blaid.

3.3 Cafodd ailetholiad Arwyn Reed ei gynnig gan Chris Hewitt, a'i eilio gan Kevin Taylor. Roedd 13 aelod o blaid.

4.0 Cymeradwyo ailbenodi Ashmole & Co yn archwilwyr

4.1 Cafodd ailbenodiad Ashmole & Co yn archwilwyr i'r Ymddiriedolaeth ei gynnig gan Joff Timms, a'i eilio gan Kevin Taylor. Roedd 14 aelod o blaid.

5.0 Unrhyw fusnes arall yn ôl disgrisiwn y cadeirydd.

5.1 Dywedodd yr aelod Sue Lewis 'da iawn' wrth bawb dan sylw a bod y Castell yn dal i wneud cynnydd er gwaetha'r pandemig.

5.2 Dymunodd yr aelod Catrin Miles yn dda i'r Castell, gan obeithio am well 2021 i bawb.

5.3 Caeodd y Cadeirydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.